**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Carles Rovira
Prif Weithredwr
Celsa Steel UK

31 Mai 2024

Annwyl Carles

**Dyfodol Dur yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor yn gwneud rhywfaint o waith ymchwilio i ddyfodol Dur Cymru. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, edrych ar gynigion Tata i gau eu ffwrneisi chwyth a newid at gynhyrchiant arc trydan. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd yng nghyfeiriad cyffredinol y diwydiant a'r rôl y gall ei chwarae mewn economi werdd yn y dyfodol.

Fel un sydd â rôl amlwg yn sector dur Cymru a busnes sydd eisoes yn gweithredu ffwrnais arc drydan (EAF), byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr mewn clywed eich barn ar ddyfodol dur Cymru ac ar rai o'r materion yr ydym wedi'u trafod. Rwy'n rhagweld na fyddech yn awyddus i wneud sylwadau ar y sefyllfa yn Tata, ac ni fyddwn yn disgwyl ichi wneud hynny, fodd bynnag yn fwy cyffredinol a fyddech cystal â rhoi eich barn i ni ar y canlynol:

- Rydym wedi clywed bod y newid arfaethedig o wneud dur sylfaenol i wneud dur ffwrnais arc drydan yn golygu ei bod yn debygol y bydd cynnydd sylweddol yn y galw domestig am ddur sgrap y DU, y mae llawer ohono'n cael ei allforio ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi clywed galwadau eang am weithredu yn hyn o beth, yn enwedig o ran dur sgrap o'r ansawdd gorau. A oes unrhyw gamau rheoleiddiol neu gamau eraill y dylai Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU eu cymryd i gefnogi datblygiad diwydiant dur sgrap domestig a fyddai'n cefnogi cynnydd yng nghynhyrchiant dur ffwrnais arc y DU?

- A oes unrhyw feysydd eraill lle credwch y dylai Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru weithredu i gefnogi datblygiad y diwydiant dur yng Nghymru yn y dyfodol?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg